TGAU

3010NA0-1

**DYDD MAWRTH, 11 MEHEFIN 2019 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN UWCH

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**

**Yn y cerddi, mae'r ddau fardd yn rhoi darlun o berthynas rhwng dau gariad.**

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:**

- **cynnwys a neges / themâu'r cerddi**
- **sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)**
- **eich ymateb personol i'r cerddi**

**Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

## Y FERCH WRTH Y BAR YNG NGHLWB IFOR

Yn fan hyn, aeafau’n ôl,
yn ddifaddau o feddwol,
fe’i gwelais; estynnais stôl.

Ordrais beint ar draws y bar
a’i gwylio, yn llawn galar,
yn ei sgert trwy’r mwg sigâr.

Yn ei llygaid tanbaid hi
roedd ’na gefnfor o stori,
a hyder a direidi

yn eu llawnder i’n herio,
trwy ryw wyrth, y dôi ein tro
ond a dal i’w lled-wylio...

Ym mrad yr edrychiadau,
yn sŵn ein dawns ni ein dau,
am ei swyn mi es innau

yn rhy ddedwydd freuddwydiol,
yn ddifaddau o feddwol,
yn fan hyn, aeafau’n ôl.

Rhys Iorwerth

## CARIAD

Gwelais ddawns y darnau arian
pan fydd yr haul yn golchi'r *marian,
wedyn, oedi yn syfrdandod
machlud ar y twyn a'r tywod,
ond fe'm daliwyd gan dy lygaid dyfnion di.

Rhywle draw uwch *swae y tonnau –
galwad gwylan ar y creigiau,
a daw eto *falm i'r galon
wrth noswylio'n sŵn yr *eigion,
ond fe'u *ffeiriwn oll am rin dy chwerthin di.

Clywais yno stori'r dryllio,
y waedd am help a neb yn *malio,
ac yn chwilfriw ar y glannau
bydd broc môr y torcalonnau,
ond angor fawr i'm cadw fydd dy freichiau di.

Gwyn Erfyl

*marian – cerrig mân ar lan y môr
*swae – cerrynt, symudiad
*falm / balm - gwellhad
*eigion – môr
*ffeiriwn / ffeirio – trwco, cyfnewid
*malio – poeni, becso

**DIWEDD Y PAPUR**